OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 342

## Rheoliadau Deddf yr Economi Ddigidol 2017 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru a Lloegr) 2018

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2018**

**3.**—(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2017 i rym ar 1 Ebrill 2018 i'r graddau y maent yn ymwneud â datgelu gwybodaeth i ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth ar gyfer ardal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, neu'n ymwneud â datgelu gwybodaeth gan ymgymerwr o'r fath—

(a) adran 35 (datgelu gwybodaeth i wella cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus), at bob diben sy'n weddill;

(b) adran 38 (datgelu gwybodaeth i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth etc.), at bob diben sy'n weddill;

(c) adran 39 (datgelu gwybodaeth gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth etc.);

(d) adran 40 (darpariaethau pellach ynghylch datgeliadau o dan unrhyw un neu ragor o adrannau 35 i 39);

(e) adran 41 (cyfrinachedd gwybodaeth bersonol);

(f) adran 42 (gwybodaeth a ddatgelir gan Gyllid a Thollau);

(g) adran 43 (cod ymarfer);

(h) adran 44 (rheoliadau), at yr holl ddibenion sy'n weddill;

(i) adran 45 (dehongli'r bennod hon etc.);

(j) Atodlen 4 (cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus: personau penodedig at ddibenion adran 35);

(k) Atodlen 6 (cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus: personau penodedig at ddibenion adrannau 38 a 39).

(2) Daw Penodau 5 a 6 o Ran 5 o Ddeddf 2017 i rym ar 1 Ebrill 2018, i'r graddau y maent yn ymwneud â datgelu gwybodaeth gan Awdurdod Cyllid Cymru.